Cip ar Ddata

Archwilio'r pontio i addysg ôl-orfodol yng Nghymru

Awduron: Katy Huxley a Rhys Davies

Dyddiad: Mai 2023

Mae'r Cipolwg Data hwn yn archwilio'r newid o'r ysgol i Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET) yng Nghymru.

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau cyfraddau pobl ifanc nad ydynt yn symud i gyflogaeth, addysg na hyfforddiant , yn ogystal â chodi dyheadau a chyrhaeddiad pobl ifanc fregus , . Wrth gyfrannu at y nodau hyn, mae'n bwysig deall dilyniant disgyblion o addysg orfodol tua 16 oed i leoliadau addysg ôl-orfodol.

Er bod ystadegau cenedlaethol a gyhoeddwyd bob blwyddyn yn nodi nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn lleoliadau Addysg Bellach (AB), nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys dysgwyr mewn lleoliadau chweched dosbarth ac nad ydynt yn gynrychioliadol o bontio carfan Blwyddyn 11. Mae Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru , a gynhaliwyd bob blwyddyn ar ran Llywodraeth Cymru, yn rhoi darlun mwy cyflawn o gyrchfannau disgyblion Blwyddyn 11, eto dim ond ar gategorïau rhywedd ac ethnigrwydd y gellir gwneud dadansoddiad segmentu.

Mae'r Cipolwg Data hwn yn defnyddio ffynonellau data addysg weinyddol i archwilio'r newid o'r ysgol i'r chweched dosbarth a cholegau AB gan ystod ehangach o nodweddion dysgwyr.

Yr hyn a wnaethom

Cysylltodd yr ymchwil hon Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Data Cenedlaethol Cymru (NDC PLASC), y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ÔI-16 (PLASC ÔI-16), a Chofnod Dysgwr Gydol Oes Cymru (LLWR). O gysylltu'r cofnodion gweinyddol hyn caniatawyd inni adnabod y disgyblion hynny a symudodd i addysg neu hyfforddiant ôl-orfodol, ac edrych ar amrywiaeth o nodweddion sy'n gysylltiedig â'r bobl hynny nad oeddent yn pontio i ddysgu pellach yng Nghymru.

Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 rhwng 2012/13 a 2016/17, defnyddiwyd cofnodion ysgol i weld a wnaethant barhau i addysg naill ai yn y 6ed dosbarth neu golegau addysg bellach yn y flwyddyn academaidd ganlynol, neu oni ellid eu lleoli mewn data o leoliadau addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Wedyn, ystyriwyd a oedd nodweddion personol amrywiol, fel cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) ac Anghenion Addysg Arbennig (AAA), , yn gysylltiedig â mynychu chweched dosbarth, colegau AB, neu beidio â chael eu hadnabod.

Yr hyn a ganfuom

Mae Ffigwr 1 yn dangos nifer y disgyblion oedd yn y chweched dosbarth, colegau addysg bellach, neu heb eu hadnabod erbyn blwyddyn academaidd. Presenoldeb mewn colegau addysg bellach yw'r cam nesaf mwyaf cyffredin i ddisgyblion Blwyddyn 11, gyda thua 55% yn cofrestru mewn colegau addysg bellach. Mae dros 40% o ddisgyblion yn mynd ymlaen i fynychu 6ed dosbarth yn dilyn Blwyddyn 11, er nad yw tua 8% o'r disgyblion i'w canfod yn y cofnodion hyn.

Ffigur 1 – Dilyniant i Addysg Ôl-orfodol



Mae nifer o resymau na ellir lleoli disgyblion Blwyddyn 11 gyda'r data addysg ôl-orfodol.

Awgrymodd Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru 2020 fod tua 3% o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi mynd i weithio, bod 3% arall yn dilyn hyfforddiant yn y gweithle (ond nad oeddent yn weithwyr), tra bod lleiafrif llai wedi 'gadael yr ardal' . Yn wir, efallai fod rhai o'r bobl ifanc hyn wedi symud o Gymru i gael gwaith, at ddibenion addysg bellach neu hyfforddiant. Mae'r gweddill yn debygol o fod yn segur yn economaidd.

Buom yn archwilio nodweddion ymhellach sy'n gysylltiedig â pheidio â pharhau i addysg ôl-orfodol a thynnu'n ôl o addysg ôl-orfodol. Mae Ffigur 2 yn crynhoi'r canfyddiadau hyn. Mae'r canlyniadau'n awgrymu y gallai cymhwysedd FSM a'r rhai sydd â statws AAA elwa o gefnogaeth wedi'i thargedu i fynd i mewn ac aros mewn addysg ôl-orfodol, o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys i FSM a'r rhai nad ydynt wedi'u nodi'n AAA.

Ffigur 2 – Ddim mewn Addysg neu Hyfforddiant Ôl-Orfodol (PCET)



Pam Mae'n Bwysig

Nid yw amcangyfrifon cyfredol o PCET naill ai'n rhoi darlun cyfannol o bontio o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12, neu nid ydynt yn caniatáu archwiliad gan ystod eang o nodweddion. Gall deall nodweddion y rhai nad ydynt yn parhau yn PCET gynorthwyo cefnogaeth unigolion o'r fath i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant.

Drwy ddarparu cefnogaeth briodol i'r unigolion hyn gallai fod yn bosibl lleihau bylchau cyrhaeddiad ymhellach a nifer y bobl ifanc NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yng Nghymru.

Beth Nesaf?

Er mwyn deall ymhellach y gefnogaeth a ddarperir i ddisgyblion ysgol, gellir cysylltu setiau data PLASC a PCET â gwybodaeth am ymyriadau canllawiau gyrfaoedd, gan ganiatáu archwilio strategaethau cymorth i bobl ifanc eu hatal rhag dod yn NEET.

Diolchiadau

Cynhyrchwyd y Cipolwg Data hwn gan dîm ymchwil Sgiliau a Chyflogadwyedd YDG Cymru. Mae'n rhoi cipolwg ar yr ymchwil addysgiadol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn YDG Cymru ond ni fwriedir iddo roi darlun cyflawn o'r gwaith a wneir yn y maes hwn na rhaglen waith YDG Cymru. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y Cipolwg Data hwn wedi'i hadolygu gan gydweithwyr YDG Cymru sydd ag arbenigedd yn y maes thematig hwn a derbynnir eu bod yn gywir adeg cyhoeddi. Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn y Cipolwg Data hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau sefydliadau partner YDG Cymru.

Cyfeiriadau

1. https://gov.wales/youth-engagement-and-progression-framework-implementation-plan
2. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/rewriting-the-future-raising-ambition-and-attainment-in-welsh-schools.pdf
3. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/strategy-raising-the-ambitions-and-educational-attainment-of-children-who-are-looked-after-in-wales.pdf
4. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education
5. https://careerswales.gov.wales/careers-professionals/pupil-destinations/pupil-destinations-2020/year-11-pupil-destinations-from
6. Cyfeirir at AAA bellach fel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn dilyn Deddf ADY yn 2020. Rydyn ni'n defnyddio'r term AAA gan ei fod yn adlewyrchu'r cyfnod o ddata rydyn ni'n ei gwmpasu. Nid yw'r rhai sydd â 'Dim AAA' wedi'u nodi fel rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol.
7. https://careerswales.gov.wales/careers-professionals/pupil-destinations/pupil-destinations-2020/year-11-pupil-destinations-from#Not%20in%20Employment,%20FTE%20and%20Training

Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: ADRUK.org
Twitter: @ADR_Wales

Mae'r ymchwil hwn wedi'i gynnal yn rhan o raglen waith YDG Cymru, yn rhan o faes ymchwil thematig Addysg. Mae'r meysydd ymchwil thematig yn cydfynd â'r themâu blaenoriaeth a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn dod ag arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol yn Llywodraeth Cymru at ei gilydd i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu drwy ddefnyddio Cronfa Ddata SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu â dadansoddi data dienw. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Economaidd ac Ymchwil Cymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU) wedi'i gyllido gan YDG y DU.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAIL DATABANK

WISERD
Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

ADR UK
Data-driven change

UKRI
Economic and Social Research Council